# SL(5)437 - Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) (Diwygio) 2019

## Gweithdrefn

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn ategu Rheoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar lygryddion organig parhaus.

Mae Rheoliad (UE) 2019/1021 yn disodli ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 850/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar lygryddion organig parhaus.

Mae rheoliad 2 yn disodli Atodlen 8 newydd i Reoliadau 2005 er mwyn diweddaru cyfeiriadau at Reoliad (UE) 2019/1021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau hyn (Saesneg yn unig) yn nodi:

*"The Hazardous Waste (Wales) (Amendment) Regulations 2019 are made under the European Communities Act 1972 (ECA) section 2(2) enabling power. Section 2(2) of the European Communities Act 1972 offers a choice between negative and affirmative procedures. As these amendments are technical in nature and involve updating references to EU legislation and the discretion of the Welsh Ministers is limited over the content of the SI, the instrument is suitable for negative procedure.*"

## Y goblygiadau yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

Llygryddion Organig Parhaus (POPs) yw sylweddau y nodwyd eu bod yn wenwynig, yn barhaus, yn fio-gronnol ac yn bellgyrhaeddol. Mae Rheoliad yr UE yn gweithredu Confensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaus, sy'n ceisio dileu neu gyfyngu ar gynhyrchu a defnyddio'r sylweddau hyn. Bydd y DU yn parhau i fod yn rhan o'r Confensiwn rhyngwladol hwn yn dilyn ei hymadawiad â'r UE.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**29 Gorffennaf 2019**